**CYPE(6)-20-23 – Papur i'w nodi 11**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Derek Walker
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

26 Mehefin 2023

**Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: A yw plant a phobl ifanc anabl yn cael mynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

Annwyl Derek,

Yn ddiweddar, gwnaethom lansio ymchwiliad newydd ac eang sy'n edrych ar fynediad plant a phobl ifanc anabl at addysg a gofal plant. Mae'r ymchwiliad hwn yn cael ei osod yng nghyd-destun Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Rydym yn gofyn p'un a yw darparwyr gofal plant, ysgolion ac awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rydym wedi cadw'r cwmpas yn eang yn bwrpasol gan gwmpasu pob agwedd ar ddarpariaeth ysgol statudol a gofal plant. Mae'n cwmpasu niwrowahaniaeth ac anableddau corfforol, synhwyraidd a dysgu. Gallwch gael rhagor o wybodaeth ar dudalen we ein hymchwiliad, gan gynnwys sut i ymateb i'r ymgynghoriad: https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=40923

Gwnaethom gynnal ein sesiynau tystiolaeth lafar cyntaf gyda Chomisiynydd Plant Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym mis Mai. Nododd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol mai un o'r rhwystrau i addysg gynhwysol, fel y rhagwelwyd gan y Cenhedloedd Unedig, yw adeiladau ffisegol yr ysgolion, nad ydynt efallai'n hygyrch i blant niwroamrywiol, neu rai sydd ag anableddau corfforol neu synhwyraidd.[1]

Mae gennym ddiddordeb yn eich barn ar i ba raddau y cydymffurfir â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, o ran ysbryd ac o ran bwriad, wrth gyflawni rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. A ydych yn ymwybodol o unrhyw bryderon a godwyd gyda'ch swyddfa ynghylch i ba raddau y mae pob rhan o'r gymuned yn cymryd rhan wrth ddylunio a darparu ystadau ysgolion newydd neu wedi'u hailddatblygu? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn pa mor dda yr ymgysylltir ac ymgynghorir â

[1] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2023, Cofnod y Trafodion, paragraff [122]

phlant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd mewn ffordd ystyrlon, ond byddem yn croesawu unrhyw farn ehangach hefyd. Byddai gennym ddiddordeb hefyd mewn gwybod a yw hyn yn broblem ehangach wrth ddatblygu a dylunio adeiladau â phwrpas cymdeithasol neu rai sy'n cael eu darparu drwy arian cyhoeddus.

Os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch am yr ymchwiliad neu ein cais penodol, cysylltwch â'r Clerc, Naomi Stocks ar 0300 200 6222 neu seneddplant@senedd.cymru

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.